

## Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd

<b>Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb:</b>	✓
<b>Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg:</b>	✓
<b>Cymeradwywyd gan:</b>	Bwrdd y Llywodraethwyr
<b>Dyddiad Cymeradwyo:</b>	22 Mai 2018
<b>Awdur:</b>	Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio)
<b>Fersiwn:</b>	V1
<b>Dyddiad Adolygu:</b>	Mai 2021

<b>Cyhoeddwyd ar:</b>	<b>Y Wefan (✓)</b>	<b>Y Fewnrwyd (✓)</b>	<b>Porth Dysgwyr (✓)</b>
	(✓)	(✓)	

Ar gael mewn ffont bras a fformatau eraill ar gais

Mae'r polisi hwn ar gael yn Saesneg

Efallai na fydd y copi hwn yn gyfredol os yw wedi ei argraffu

# COLEG GWENT

## Polisi Gwrth-dwyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd

### Cyflwyniad

1. Ni fydd Coleg Gwent yn derbyn unrhyw lefel o dwyll, llwgwrwbrwyo na llygredd. Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu ein hasedau ac i onestrwydd ac uniondeb yn ein holl weithgareddau. Mae'r Coleg yn benderfynol o atal, rhwystro a chanfod pob math o dwyll, llwgwrwbrwyo a llygredd a gyflawnir yn ei erbyn, boed gan bartion mewnol neu allanol.
2. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i sicrhau bod ei holl fusnes yn cael ei gynnal mewn ffordd agored, onest a theg. Disgwylir i bob llywodraethwr, aelod o staff a thrydydd parti sy'n gweithio ar ran y Coleg fabwysiadu'r safonau uchaf o briodoldeb ac atebolrwydd, ac i chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo diwylliant gwrth-dwyll, llwgwrwbrwyo a llygredd.
3. Bydd pob achos o dwyll, llwgwrwbrwyo neu llygredd yn cael ei ymchwilio'n drylwyr a'i drin yn briodol. Bydd y math o gamau a gymerir yn dibynnu ar lefel ac amgylchiadau'r twyll a ddarganfyddir a gallai gynnwys gweithdrefnau disgyblu, diswyddo a/neu erlyniad troseddol. Bydd y Coleg bob amser yn ceisio adennill arian a gollir trwy dwyll.
4. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob llywodraethwr, yr holl staff, boed yn barhaol neu dros dro, a phob un trydydd parti sy'n gweithio ar ran y Coleg.

### Diffiniad o Dwyll

5. At ddibenion y polisi hwn, diffinnir twyll fel ymddwyn yn annidwyll i amddifadu, i anfanteisio neu achosi colled i berson neu barti arall. Gall hyn gynnwys lladrad, camddefnyddio arian neu adnoddau eraill neu droseddau mwy cymhleth megis cyfrifyddu ffug a chyflenwi gwybodaeth ffug neu gam-gyfleu.
6. Cyflwynodd Deddf Twyll 2006 y tair prif drosedd a ganlyn:
  - **Twyll trwy ymhoeddiad anwir**- e.e. dweud celwydd ar CV i gael gwaith
  - **Twyll trwy gamddefnyddio safle** - e.e. rheolwr cyllid yn defnyddio ei safle i ddwyn arian
  - **Twyll drwy fetu â datgelu gwybodaeth** - e.e. methiant i ddatgan euogfarn heb ei disbyddu i gael gwaith.
7. Byddai enghreifftiau eraill o dwyll a allai ddigwydd yn y Coleg yn cynnwys (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr nac yn gyflawn a bydd troseddau eraill o natur debyg yn cael eu trin o dan y polisi hwn):
  - Ffugio hawliadau treuliau neu hawliadau tâl
  - Camddefnyddio hawl gwyliau blynyddol
  - Dwyn arian neu asedau neu stoc eraill y coleg
  - Ffugio anfonebau neu gofnodion eraill i gaffael taliad
  - Methiant i roi cyfrif am arian neu anfonebau a dalwyd
  - Camddefnyddio'r cynllun salwch
  - Defnydd anawdurdodedig o eiddo ac offer y coleg
  - Defnydd amhriodol o gyfleusterau, eiddo neu offer coleg er budd personol
  - Ymgymryd â gweithgareddau cyflogaeth eraill neu fod yn absennol fel arall heb awdurdod yn ystod oriau cytundebol y coleg
  - Ffugio hawliadau/cofnodion deilliannau dysgwyr
  - Ffugio cymwysterau i gael gwaith
  - Methiant i ddatgelu diddordeb personol mewn busnesau y mae gan y coleg gytundeb gyda nhw am wasanaethau neu gyflenwadau. Gweler paragraff 20.2

8. Bydd unigolyn sy'n cyflawni twyll yn wynebu camau disgyblu, gweithredu sifil a/neu erlyniad troseddol. Os yw unigolyn yn cael ei ganfod yn euog o dwyll mewn llys troseddol, gallai ef/hi wynebu dedfryd o garchar am hyd at ddeng mlynedd. Gallai enw'r unigolyn hefyd gael ei ddileu o'r gofrestr os ydynt yn aelod o gorff proffesiynol.

### **Diffiniad o Llwgwrwbrwyo**

9. Llwgwrwbrwyo yw mantais ariannol neu fantais arall sydd â'r bwriad o ysgogi "perfformiad amhriodol" o safle o ymddiriedaeth neu swyddogaeth y disgwylir iddo gael ei berfformio'n ddiuedd neu'n ddiidwyll. Nid oes rhaid i llwgwrwbrwyo cynnwys arian parod neu daliad yn cyfnewid dwylo a gall ddigwydd mewn sawl ffurf megis rhodd (h.y. triniaeth hael yn ystod taith fusnes neu docynnau i ddigwyddiad).
10. Nid yw llwgwrwbrwyo bob amser yn arwain at golled. Efallai na fydd yr unigolyn llygredig yn elwa'n uniongyrchol o'i weithredoedd; fodd bynnag, efallai bod ef/hi yn defnyddio ei safle yn afresymol i roi rhywfaint o fantais i rywun arall.
11. Mae Deddf Llwgwrwbrwyo 2010 yn cynnwys pedair prif drosedd:
  - Rhoi neu gynnig llwgwrwbr
  - Derbyn neu ofyn am llwgwrwbr
  - Llwgwrwbrwyo swyddog cyhoeddus tramor (a elwir hefyd yn daliadau hwyluso)
  - Methiant esgeulus i atal llwgwrwbr (trosedd corfforaethol)
12. O dan y Ddeddf Llwgwrwbrwyo, gallai trosedd fod wedi'i chyflawni hyd yn oed os na chafodd arian neu nwyddau eu cyfnewid ac nid oes gan llwgwrwbr isafswm gwerth.
13. Felly mae'n gyfrifoldeb ar yr holl staff i sicrhau eu bod yn datgan rhoddion a lletygarwch a gynigir iddynt yn ystod eu gwaith. Gweler paragraff 20.1
14. Gall unigolion sy'n llwgwrwbrwyo'r Coleg wynebu erlyniad troseddol, gweithredu sifil, camau disgyblu a/neu gael eu dileu o'r gofrestr os ydynt yn aelod o gorff proffesiynol. Os canfyddir yr unigolyn yn euog o llwgwrwbrwyo, gallai wynebu dedfryd o garchar am ddeng mlynedd a dirwyon diderfyn.

### **Atal twyll, llwgwrwbrwyo a llygredd**

15. Mae'r Coleg yn gweithredu o fewn fframwaith cadarn o ymddygiad disgwylidig a rheolaeth fewnol sy'n cynnwys gwerthoedd ac ymddygiadau, y cod ymddygiad a systemau a gweithdrefnau, gan gynnwys y Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol a'r polisi a'r weithdrefn gaffael. Cynlluniwyd y rhain, yn rhannol, i atal twyll a llygredd ac i wella atebolrwydd. Rydym angen i lywodraethwyr, aelodau staff a thrydydd partion sy'n gweithio ar ein rhan i weithredu yn unol â'r fframwaith hwn.
16. Mae gan y Coleg systemau a gweithdrefnau sy'n cynnwys rheolaethau mewnol cadarn a gynlluniwyd i leihau'r risg o dwyll, llwgwrwbrwyo a llygredd. Disgwylir i reolwyr adnabod y peryglon y mae systemau yn agored iddynt (gan gynnwys y risg o dwyll), i ddatblygu a chynnal rheolaethau i liniaru a rheoli'r risgiau a sicrhau y cydymffurfir â rheolaethau o'r fath yn briodol. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn nodi'r risg o dwyll, ynghyd â'r camau liniaru sydd ar waith i leihau'r perygl o dwyll. Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol y Coleg yn adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaethau mewnol, fel rhan o'i raglen archwilio flynyddol, i roi sicrwydd i reolwyr, y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio.
17. Mesur ataliol allweddol i leihau'r risg o dwyll a llygredd yw cymryd camau effeithiol yn y cyfnod recriwtio i sefydlu, cyn belled ag y bo modd, record flaenorol staff posibl o ran eu priodoldeb a'u gonestrwydd. Yn hyn o beth, dylid trin staff dros dro yn yr un modd â staff parhaol. Dylai recriwtio staff ddilyn y gweithdrefnau a nodir yn y polisiau Adnoddau Dynol perthnasol, a dylid cael geirdaon ysgrifenedig cyn cynnig cyflogaeth ffurfiol.

18. Mae rhaid i Gyfarwyddwyr a Deiliaid Swyddi Uwch:

- Ddatgelu manylion am unrhyw sefydliadau lle mae ganddynt safle o awdurdod neu ddiddordeb perthnasol arall ac y gallai'r busnes ddod â nhw i gysylltiad â'r Coleg.
- Datgelu unrhyw drafodion rhwng y Coleg a phartïon sy'n gysylltiedig â hwy.

19. Disgwylir i'r holl staff ymddwyn yn unol â Gwerthoedd ac Ymddygiadau Craidd y Coleg, egwyddorion "Nolan" (gweler Atodiad A) ac unrhyw godau ymddygiad cydnabyddedig sy'n gysylltiedig â'u cymwysterau proffesiynol, gan gynnwys:

- Datgan aelodaeth o gyrrff a sefydliadau allanol a allai arwain at wrthdaro buddiannau.
- Cael caniatâd gan y Pennaeth/Prif Weithredwr ar gyfer unrhyw waith neu fusnes taledig y tu allan i'r coleg, a ddylai ddim gwrthdaro â buddiannau'r Coleg.
- Peidio â derbyn rhoddion neu letygarwch personol sylweddol. Mae rhaid adrodd yn briodol am unrhyw roddion neu letygarwch a dderbynnir gan staff (gweler isod).

20. Er mwyn lleihau'r risg o llwgrwobrwo a llygredd, mae'r Coleg wedi mabwysiadu'r polisi canlynol ar roddion a lletygarwch:

- Ni ddylid derbyn rhoddion heb enw brand hyd at werth o £100 heb ganiatâd y Cyfarwyddwr priodol ac ni ellir derbyn rhoddion sydd werth dros £100 heb ganiatâd y Pennaeth/Prif Weithredwr. Mae rhaid rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Cyllid am roddion/lletygarwch o'r fath er mwyn iddynt gael eu cynnwys yn y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch Corfforaethol. Gellir derbyn eitemau bach gydag enw brand megis pinnau, calendrau ayyb hyd at werth amcangyfrifedig o £25. Bydd y Gofrestr yn cael ei hadolygu yn flynyddol gan y Pwyllgor Archwilio.
- Mae'r Coleg yn disgwyl i bob unigolyn sy'n defnyddio cyflenwyr gwasanaethau ac sy'n gweithio gyda phartneriaid ar ran y Coleg i sicrhau bod cyflenwyr a phartneriaid yn cael eu dewis trwy broses ddethol dryloyw a chystadleuol a bod gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy yn cael eu dilyn ar bartneriaid a chyflenwyr cyn ymrwmo i gontractau. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i nodi yn Rheoliadau a Gweithdrefnau Ariannol y Coleg.
- Mae rhaid i'r holl staff a chyflenwyr ddeall a chydymffurfio â'r polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwo a Llygredd hwn. Er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei gyfathrebu, mae'r Coleg yn cyhoeddi'r polisi hwn ar fewnrwyd y staff ac ar ei gwefan ac mae'n cyfleu ei bwysigrwydd trwy gyfarwyddiadau i'r holl staff yn y cylchlythyr In Touch.

## **Adrodd am Dwyll**

21. Mae'r Coleg yn annog ac yn disgwyl i'r holl staff a thrydydd partïon sy'n gweithio ar ein rhan i adrodd am unrhyw amheuan o dwyll, llwgrwobrwo neu lygredd ar unwaith. Gallai unrhyw oedi wrth adrodd am amheuaeth o dwyll, llwgrwobrwo a llygredd arwain at golledion pellach. Cyfeiriwch at Atodiad B am ragor o fanylion ac arweiniad ar sut i adrodd am dwyll, llwgrwobrwo a llygredd.

## **Staff yn adrodd am amheuan o dwyll, llwgrwobrwo neu lygredd**

22. Yn y lle cyntaf, dylai staff fel arfer godi'r pryder gyda'u rheolwr llinell.

Os:

- yw'r pryder yn ymwneud â rheolwr llinell, yna dylai staff ei godi gyda Chyfarwyddwr
- yw'n ymwneud â Chyfarwyddwr; dylid codi'r pryder gydag Is-Bennaeth
- yw'r mater yn ymwneud ag Is-Bennaeth, dylai'r pryder gael ei godi gyda'r Pennaeth/Prif Weithredwr
- yw'n ymwneud â'r Pennaeth/Prif Weithredwr dylid codi'r pryder gyda Chadeirydd y Corff Llywodraethu
- yw'n ymwneud â Chadeirydd y Corff Llywodraethu dylid codi'r pryder gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

23. Pan fo staff yn cael anhawster wrth fynd at eu rheolwr eu hunain, oherwydd bod yna bryder bod naill ai'r rheolwyr yn gysylltiedig â'r twyll neu efallai na fyddant yn cymryd y mater o ddifrif, gallant gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn uniongyrchol neu gyfeirio at bolisi Chwythu Chwiban y Coleg.

### **Trydydd partion yn adrodd am dwyll**

24. Gall trydydd partion, gan gynnwys y cyhoedd, adrodd am bryderon trwy weithdrefn Cwynion y Coleg sydd ar gael ar wefan y Coleg. Gallant hefyd gyflwyno pryderon yn uniongyrchol i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio drwy'r Swyddog Llywodraethu.

### **Ymchwilio i gyhuddiadau o Dwyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd**

25. Mae cynllun Twyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd y Coleg yn rhoi arweiniad i reolwyr ar y camau i'w cymryd os yw rhywun yn gwneud honiad o dwyll, llwgwrwbrwyo neu lygredd. Mewn achosion arferol bydd y rheolwr yn cysylltu â'r cyfarwyddwr perthnasol, ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid a/neu'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, a fydd yn trefnu i ymchwiliad gael ei wneud. Caiff materion o natur droseddol eu hadrodd i'r Heddlu. Byddwn hefyd yn hysbysu asiantaethau perthnasol eraill fel y bo'n briodol.

### **Hyfforddiant**

26. Mae'r Coleg yn cydnabod bod llwyddiant y polisi gwrth-dwyll, llwgwrwbrwyo a llygredd hwn yn dibynnu i raddau helaeth, ar sicrhau bod pob llywodraethwr, aelod staff a thrydydd parti sy'n gweithio ar ein rhan yn ymwybodol o ddull y Coleg o ddelio â thwyll, llwgwrwbrwyo a llygredd.
27. Mae manylion am ein Polisi a'n Cynllun Ymateb yn cael eu cyhoeddi ar y fewnwyd a'r wefan. Yn ogystal, bydd hyfforddiant twyll gorfodol yn cael ei ddarparu i'r holl lywodraethwyr a staff o fewn tri mis iddynt ddechrau gweithio gyda'r Coleg a bydd yn cael ei ailadrodd o leiaf unwaith bob dwy flynedd.

### **Monitro twyll, llwgwrwbrwyo a llygredd**

28. Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am adolygu'r trefniadau sydd ar waith i'r staff godi pryderon ynghylch unrhyw ymddygiad amhriodol posibl. Fel rhan o hyn, bydd y Pwyllgor Archwilio yn cymeradwyo'r Polisi Gwrth-Dwyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd a'r Cynllun Ymateb i Dwyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd. Bydd y Pwyllgor hefyd, yn adolygu'r Gofrestr Twyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd a'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch yn flynyddol.
29. Bydd unrhyw gamau a gymerir gan y Coleg mewn cysylltiad ag amheuaeth o dwyll, llwgwrwbrwyo neu lygredd yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio.

### **Mesurau Atal Allweddol a Pholisïau Ategol**

30. Mae'r polisi gwrth-dwyll, llwgwrwbrwyo a llygredd hwn yn cael ei gefnogi gan y polisïau a'r gweithdrefnau canlynol sy'n ffurfio rhan allweddol o'n mesurau atal -
- Gwerthoedd ac ymddygiadau craidd
  - Cod Ymddygiad
  - Polisi Chwythu Chwiban (Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd)
  - Gweithdrefn rhoddion a lletygarwch
  - Polisi a gweithdrefnau disgyblu
  - Cynllun ymateb i dwyll, llwgwrwbrwyo a llygredd
  - Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol
  - Gweithdrefnau caffael
  - Gweithdrefnau Recriwtio a Chynefino
  - Datgan diddordeb blynyddol gan Gyfarwyddwyr a Deiliaid Swyddi Uwch

## SAITH EGWYDDOR BYWYD CYHOEDDUS

Yn sail i'r diwylliant gwrth-dwyll mae'r Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus, a elwir hefyd yn Egwyddorion 'Nolan'.

Mae'r egwyddorion yn berthnasol i lywodraethwyr, staff a thrydydd partion sy'n gweithio ar ein rhan, dyma'r saith egwyddor:

**Anhunanoldeb:** Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd yn unig. Ni ddylent weithredu er mwyn cael budd ariannol neu fudd arall iddynt eu hunain, eu teuluoedd na'u cyfeillion.

**Uniondeb:** Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu gosod eu hunain o dan unrhyw ymrwymiad ariannol nac ymrwymiad arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

**Gwrthrychedd:** Wrth gynnal busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymhell unigolion ar gyfer gwobrau a buddion, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud dewisiadau ar sail rhinwedd.

**Atebolrwydd:** Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd ac mae rhaid iddynt dderbyn unrhyw graffu a fo'n briodol i'w swyddi.

**Bod yn agored:** Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored ag y bo modd ynglŷn â'r holl benderfyniadau a chamau gweithredu a gymerant. Dylent roi rhesymau clir am eu penderfyniadau ac ni ddylent gyfyngu ar wybodaeth ac eithrio pan fo'n amlwg fod hynny er budd y cyhoedd.

**Gonestrwydd:** Mae dyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fudd preifat yn ymwneud â'u dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.

**Arweinyddiaeth:** Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweiniad ac esiampl.

## CYNLLUN YMATEB I DWYLL, LLWGRWOBWRWYO A LLYGREDD

### Cyflwyniad

1. Yn unol ag ymrwymiad y Coleg i atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd, bwriedir i'r Cynllun Ymateb i Dwyll hwn roi cyfeiriad a chymorth i bob llywodraethwr, aelod staff, trydydd parti ac aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno codi eu pryderon ynghylch amheuaeth o dwyll.
2. Mae'r Cynllun yn rhoi fframwaith i'w ddilyn wrth ymateb i honiadau o dwyll, llwgrwobrwyo neu llygredd ac mae'n darparu gwybodaeth sy'n caniatáu i dystiolaeth gael ei chasglu a'i choladu mewn ffordd sy'n hwyluso penderfyniadau cychwynnol gwybodus, wrth sicrhau bod y dystiolaeth a gasglwyd yn dderbyniol mewn unrhyw achosion troseddol neu sifil yn y dyfodol.

### Diffiniadau

**1. TWYLL** O dan Ddeddf Twyll 2006, gellir cyflawni trosedd twyll mewn tair ffordd: trwy ymholiad anwir, trwy gamddefnyddio safle a trwy fethu â datgelu gwybodaeth Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys troseddau am gael gwasanaethau'n anonest ac am feddu ar, gwneud a chyflenwi erthyglau i'w defnyddio mewn twyll.

**2. LLWGRWOBWRWYO A LLYGREDD**  
Diffinnir llwgrwobrwyo fel cynnig, addo, derbyn neu ofyn am rodd neu fantais arall, fel cymhelliad i wneud rhywbeth sy'n anghyfreithlon neu'n dor-ymddiriedaeth wrth gynnal gweithgareddau sefydliad. Mae Deddf Llwgrwobrwyo 2010 yn nodi pedair priif drosedd: • rhoi neu gynnig llwgrwobr • derbyn neu ofyn am llwgrwobr • llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor (a elwir hefyd yn daliadau hwyluso) • methiant esgeulus i atal llwgrwobr (trosedd corfforaethol).

3. Mae enghreifftiau o llwgrwobrwyo yn cynnwys:
  - Cyflenwr posibl yn cynnig arian neu rodd er mwyn dylanwadu ar broses dendro
  - Ymgeisydd am swydd yn cynnig gwobr i gynyddu ei siawns o gael cynnig swydd
  - Dysgwr yn cynnig gwobr i ddylanwadu ar benderfyniad ar asesiad
4. Cyn belled ag y mae'r Coleg yn y cwestiwn, twyll yw'r weithred o amddifadu'r Coleg neu drydydd parti o rywbeth trwy dwyll, boed hynny trwy ladrata, camddefnyddio arian neu adnoddau eraill, neu drwy droseddau mwy cymhleth megis camliwio, personadu, cyfrifyddu anwir a rhoi gwybodaeth ffug.

Yn nodweddiadol, mae'n debygol y bydd twyll yn perthyn i un o'r categorïau canlynol:

- Materion System - lle mae unigolyn yn ffugio cofnodion yn fwriadol, neu'n ffugio data er mwyn twyllo fframwaith rheolaethau mewnol y Coleg (er enghraifft, cyflwyno hawliadau ffug am dreuliau).
- Materion ariannol - lle mae unigolion neu gwmnïau wedi cael arian gan y Coleg yn dwyllodrus (er enghraifft, anfonebau twyllodrus ar gyfer gwaith sydd heb ei wneud).
- Materion yn ymwneud ag Eiddo ac Offer - lle mae eiddo ac offer y Coleg yn cael eu defnyddio ar gyfer defnydd personol anawdurdodedig.
- Materion yn ymwneud ag adnoddau - camddefnyddio adnoddau (er enghraifft, dwyn arian neu ddefnyddiau).
- Materion yn ymwneud â recriwtio - unigolyn yn ffugio cais am gyflogaeth.

- Materion eraill - mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau sy'n anghyfreithlon; yn groes i bolisiâu'r Coleg; sy'n disgyn islaw safonau neu arferion sefydledig; neu ymddygiad amhriodol (er enghraifft, derbyn lletygarwch amhriodol neu gamddefnyddio statws er budd personol).

5. Cefnogir y Polisi Gwrth-Dwyll gan bolisiâu a gweithdrefnau Adnoddau Dynol a Chyllid

### **Beth ddylai staff wneud os ydynt yn amau bod twyll wedi digwydd**

6. Mae staff yn cael eu hannog ac, yn wir, disgwylir iddynt godi unrhyw bryder sydd ganddynt, heb ofni edliw ('chwythu'r chwiban'). Er mwyn hwyluso hyn, mae gan y Coleg Bolisi Datgelu er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban). Bydd unrhyw bryderon sy'n cael eu codi yn cael eu trin yn gyfrinachol a byddant yn cael eu harchwilio'n drylwyr.
7. Yn aml, y staff yw'r cyntaf i sylwi ar achosion posibl o dwyll neu lygredd. Ni ddylai staff geisio cynnal ymchwiliad eu hunain. Gallai hynny niweidio unrhyw ymholiad dilynol.
8. Yn y lle cyntaf, dylai staff fel arfer godi'r pryder gyda'u rheolwr llinell. Os yw'r pryder yn ymwneud â rheolwr llinell, yna dylai staff ei godi gyda chyfarwyddwr, ac os yw'n ymwneud â chyfarwyddwr, dylid codi'r pryder gydag Is-Bennaeth. Os yw'r mater yn ymwneud â'r Is-Bennaeth dylid mynd at y Pennaeth/Prif Weithredwr. Os yw'r mater yn ymwneud â'r Pennaeth/Prif Weithredwr, dylid codi'r pryder gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr, ac os yw'n ymwneud â Chadeirydd y Llywodraethwyr, dylid codi'r pryder gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.
9. Pan fo staff yn cael anhawster wrth fynd at eu rheolwr eu hunain, oherwydd bod yna bryder bod naill ai'r rheolwyr yn gysylltiedig â'r mater neu efallai na fyddant yn cymryd y mater o ddifrif, gallant gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio neu Gadeirydd y Llywodraethwyr drwy'r Swyddog Llywodraethu. Gallant hefyd ddefnyddio'r Polisi Datgelu er Lles y Cyhoedd.

### **Beth ddylai trydydd parti wneud os ydynt yn amau bod twyll wedi digwydd**

10. Gall trydydd partion, gan gynnwys y cyhoedd, adrodd am bryderon trwy weithdrefn gwyno gorfforaethol y Coleg sydd ar gael ar y wefan. Gallant hefyd adrodd pryderon yn uniongyrchol i aelodau neu staff y Coleg, a fydd yn dwysau'r pryder yn unol â'r Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd a'r Cynllun Ymateb.
11. Os bydd rhywun yn teimlo na allant godi eu pryderon yn uniongyrchol gyda'r Coleg, gallant gysylltu ag archwilydd mewnol neu allanol y Coleg, mae enw a chyfeiriad yr archwilywr ar gael yng nghyfrifon cyhoeddadedig y Coleg.
12. Gall unrhyw un sy'n pryderu am gamwedd sy'n bygwth budd y cyhoedd gael cymorth cyfreithiol cyfrinachol am ddim gan yr elusen 'Public Concern at Work'. Mae gan yr elusen linell gymorth, y rhif yw 0207 404 6609, neu gallwch anfon e-bost i [helpline@pcaw.co.uk](mailto:helpline@pcaw.co.uk).

### **Adrodd am amheuaeth o dwyll**

13. Nid yw codi eich llais yn erbyn gweithredoedd o dwyll yn hawdd. Bydd y Coleg yn cymryd pob gofal i ddiogelu hunaniaeth unigolyn wrth godi pryder os nad yw ef neu hi eisiau i'w (h)enw gael ei ddatgelu. Er y bydd pob ymdrech bosibl yn cael ei wneud i ddiogelu hunaniaeth unigolyn, mae'n rhaid gwerthfawrogi, fodd bynnag, y gall y broses ymchwilio ddatgelu ffynhonnell y wybodaeth ac efallai y bydd angen i'r unigolyn wneud datganiad fel rhan o'r dystiolaeth.
14. Mae'r Coleg yn annog unigolion i roi eu henwau i honiadau. Mae pryderon sy'n cael eu mynegi yn ddienw yn llawer llai pwerus, ond byddant yn cael eu hystyried yn ôl disgrisiwn y Coleg, gan ystyried difrifoldeb y materion a godwyd; hygredd y pryder; a'r tebygolrwydd o gadarnhau'r honiad o ffynonellau eraill y gellir eu priodoli.



15. Os yw cyhuddiad yn cael ei wneud yn ddidwyll, ond nad yw'n cael ei gadarnhau gan yr ymchwiliad, ni fydd unrhyw gamau yn cael eu cymryd yn erbyn yr unigolyn a gododd y pryder. Os, fodd bynnag, yw'r cyhuddiadau yn faleisus neu'n drallodus, gellir cymryd camau yn erbyn y sawl sy'n gwneud y cyhuddiad.
16. Yn ystod ymchwiliad, ni ddylai staff leisio eu pryderon i'r wasg neu'r cyfryngau heb ganiatâd y Pennaeth/Prif Weithredwr a'r Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio). Gallai gwneud hynny beryglu'r broses ymchwilio, arwain at hawliadau iawndal os yw'r amheuaeth/honiad yn profi'n ddi-sail ac yn creu cyhoeddusrwydd anghymesur negyddol i'r Coleg.
17. Lle bo'n briodol, bydd y Coleg yn sicrhau bod yr unigolyn sy'n codi'r pryder yn cael ei hysbysu o'r ymchwiliad a'i ganlyniad.

### **Beth ddylai rheolwr ei wneud pan fo rhywun yn adrodd amheuaeth?**

18. Mae rhaid i unrhyw reolwr sydd wedi cael gwybodaeth am amheuaeth o dwyll neu lygredd roi gwybod ar unwaith i'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r cyfarwyddwr perthnasol a fydd, lle bo'n briodol, yn sicrhau bod y Pennaeth/Prif Weithredwr a'r Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) yn cael gwybod.
19. Dylai'r cyfarwyddwr perthnasol, ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid, fodloni eu hunain fod yna resymau rhesymol dros yr amheuaeth, a threfnu i ymchwiliad gael ei gynnal. Dylai'r ymchwiliad gael ei neilltuo i unigolyn sydd â phrofiad neu gymwysterau priodol. Ar y pwynt hwn, dylid hysbysu'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol o'r ymchwiliad. Bydd unrhyw benderfyniad i gyfeirio'r mater i'r Heddlu yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth/Prif Weithredwr a'r Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio).
20. Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn cofnodi adroddiadau am amheuo'n o dwyll / twyll gwirioneddol mewn Cofrestr Twyll ganolog.
21. Dylai'r rheolwyr gymryd camau ar unwaith i atal colled bellach, a chymryd camau i ddiogelu unrhyw dystiolaeth.
22. Dylai'r swyddog ymchwilio gadw unrhyw ddogfennau perthnasol yn ddiogel, yn ei ffurf wreiddiol - ni ddylid ysgrifennu arno neu ei newid mewn unrhyw ffordd. Argymhellir cadw dogfennau mewn waledi plastig. Mae rhaid diogelu eitemau neu offer eraill sy'n berthnasol i'r ymchwiliad heb unrhyw newid i'w cyflwr gwreiddiol, er enghraifft, cyfrifiaduron personol ac unrhyw gofnodion arnynt.
23. Gallai canlyniad olaf ymchwiliad arwain at ymddangosiad llys. Mae'n bwysig felly bod yr ymchwiliad yn gallu gwrthsefyll trylwyredd croesholi. Mae tystiolaeth yn hanfodol, a dylai'r swyddog ymchwilio gadw tystiolaeth mewn ffurf sy'n dderbyniol yn gyfreithiol.
24. Dylid cadw cofnod manwl o'r ymchwiliad. Dylai hyn gynnwys ffeil gronolegol yn cofnodi manylion am sgysiau ffôn, trafodaethau, cyfarfodydd a chyfweliadau, manylion am ddogfennau sydd wedi'u hadolygu, a manylion am unrhyw brofion a dadansoddiadau sydd wedi cael eu cynnal.
25. Dylid cynnal pob cyfweliad mewn ffordd deg a phriodol. Pan fo yna bosibilrwydd o erlyniad troseddol, dylid gofyn am gyngor gan yr heddlu i sicrhau bod gofynion Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) yn cael eu bodloni. Dylai'r swyddog ymchwilio ofyn am gyngor gan y Cyfarwyddwr (Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol) cyn ymgymryd ag unrhyw gyfweliadau.
26. Bydd y Cyfarwyddwr (Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol) yn rhoi cyngor ar y camau sydd eu hangen i sicrhau unrhyw arian a thystiolaeth, a gweithdrefnau disgyblu, yn enwedig lle bo rhaid gwahardd staff.

27. Ni ddylid datgelu gwybodaeth i unrhyw un heblaw'r grŵp bach o uwch reolwyr sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r ymchwiliad.
28. Ni ddylid datgelu unrhyw wybodaeth i'r wasg na'r cyfryngau. Bydd y cyfarwyddwr perthnasol yn cymryd cyfrifoldeb am gyhoeddi gwybodaeth i'r cyfryngau, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth/Prif Weithredwr, a thrwy dîm marchnata'r Coleg.

### **Darparu adborth ar ymchwiliadau twyll**

29. O fewn deg diwrnod gwaith o bryder yn cael ei godi, bydd y cyfarwyddwr neu'r swyddog ymchwilio perthnasol yn cysylltu â'r unigolyn a gododd y pryder, i nodi sut y delir â'r mater.
30. Mae'r Coleg yn cydnabod bod angen sicrhau bod y bobl hynny sy'n adrodd am amheuaeth o dwyll neu lygredd yn hyderus bod y mater wedi cael sylw priodol. Felly, yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol, byddant yn cael gwybodaeth am ganlyniad unrhyw ymchwiliad, gan gynnwys camau a gymerwyd i wella rheolaethau ac felly lliniaru'r bygythiad o dwyll yn y dyfodol.
31. Bydd yr Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) yn dosbarthu manylion am y gwersi a ddysgwyd o'r ymchwiliad twyll, lle gallai fod yna oblygiadau i'r sefydliad cyfan.









### **Archwilio Mewnol**

34. Cyfrifoldeb y rheolwyr yw cynnal systemau a sicrhau bod adnoddau'n cael eu cymhwyso'n iawn ar weithgareddau cymeradwy. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am atal a chanfod twyll a gweithredoedd anghyfreithlon eraill. Bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sylw i'r posibilrwydd o gamweddau o'r fath a dylai geisio nodi diffygion difrifol mewn rheolaeth fewnol a allai ganiatáu i ddigwyddiadau o'r fath ddigwydd eto. Dylai'r Is-bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) hysbysu'r darparwr archwilio mewnol o unrhyw ddarganfyddiad neu amheuaeth o dwyll. Yn yr un modd, dylai'r darparwr archwilio mewnol hysbysu'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) pe bai staff archwilio mewnol yn darganfod tystiolaeth neu amheuaeth o dwyll.

## GWRTH-LWGRWOBROWYO A LLYGREDD

## Canllaw Sydyn i Adrodd ar Bryder

Oes gennych chi bryderon am dwyll, llwgrwobrowyo neu lygredd yn y Coleg?

GWNEWCH	PEIDIWCH Â
 <p><b>Nodi eich pryderon</b> - cofnodwch fanylion megis enwau, dyddiadau, amseroedd, manylion am sgysiau, ffotograffau, sgrin luniau, negeseuon e-bost, ffynonellau cyfryngau eraill a thystion posibl. Llofnodwch eich nodiadau a nodwch y dyddiad a'r amser.</p>	 <p><b>Herio'r unigolyn sydd o dan amheuaeth</b> neu gyfleu eich pryderon i unrhyw un heblaw'r rhai a awdurdodwyd. Peidiwch byth â cheisio cwestiynu rhywun sydd o dan amheuaeth eich hun; gallai hynny rybuddio twyllwr neu gyhuddo person diniwed</p>
 <p><b>Cadwch unrhyw dystiolaeth</b> - ond dim ond os ydych chi'n ofni y gallai'r dystiolaeth gael ei dinistrio, neu gwnewch nodyn a rhoi gwybod i'ch rheolwr llinell neu'r unigolyn priodol</p>	 <p><b>Ceisio ymchwilio</b> neu gysylltu â'r heddlu yn uniongyrchol. Peidiwch byth â cheisio casglu tystiolaeth eich hun oni bai ei bod ar fin cael ei dinistrio; Mae'n rhaid ystyried gweithdrefnau cyfreithiol wrth gasglu tystiolaeth er mwyn i'r dystiolaeth fod yn ddefnyddiol</p>
 <p><b>Adrodd am eich amheuon</b> bydd eich cyfrinachedd yn cael ei barchu - gall oedi arwain at golled ariannol bellach</p>	 <p><b>Bod ofn codi eich pryderon</b> Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn amddiffyn gweithwyr sydd â phryderon rhesymol; ni fyddwch yn dioddef gwahaniaethu neu erledigaeth trwy ddilyn y gweithdrefnau cywir</p>
 <p><b>Peidiwch â chynhyrfu</b></p>	 <p>Peidiwch â defnyddio'r broses i fynd ar ôl cwyn bersonol.</p>

Sut allaf adrodd am amheuaeth o dwyll, llwgrwobrowyo neu lygredd yn y Coleg?

Yn y lle cyntaf, dylech fel arfer godi'r pryder gyda'ch rheolwr llinell.

OND os:

- yw'r pryder yn ymwneud â rheolwr llinell, dylech ei godi gyda Chyfarwyddwr
- yw'n ymwneud â Chyfarwyddwr; dylech ei godi gyda Is-Bennaeth
- yw'r mater yn ymwneud ag Is-Bennaeth, dylai'r pryder gael ei godi gyda'r Pennaeth/Prif Weithredwr
- yw'n ymwneud â'r Pennaeth/Prif Weithredwr dylid codi'r pryder gyda Chadeirydd y Corff Llywodraethu
- yw'n ymwneud â Chadeirydd y Corff Llywodraethu dylid codi'r pryder gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.